PWYLLGOR CYNLLUNIO

DYDD IAU, 23 MAI 2024

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd W.T. Evans (Cadeirydd)

Cynghorwyr (Yn y Siambr):

S.M. Allen	J.M. Charles	P. Cooper	J.K. Howell
A.C. Jones	M.J.A. Lewis	B.D.J. Phillips	E. Skinner
R. Sparks	G.B. Thomas	S. Williams	

Cynghorwyr (Yn rhithwir):

M. Donoghue	J.D. James	A. Leyshon	D. Owen
M. Thomas	D.E. Williams		

Hefyd yn bresennol:
Y Cynghorydd D. Thomas mewn perthynas â chais cynllunio PL/06099 (Yn y Siambr)

Hefyd yn bresennol (Yn y Siambr):
S. Murphy, Uwch-gyfreithiwr
H. Towns, Uwch Reolwr Datblygu a Gorfodi
H. Rice, Uwch Swyddog Rheoli Datblygu
J. Thomas, Uwch Swyddog Rheoli Datblygu (Aman Gwendraeth)
A. Eynon, Prif Gyfieithydd
R. Morris, Swyddog Cefnogi Aelodau
E. Bryer, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

Hefyd yn bresennol (Yn rhithwyr):
R. Griffiths, Pennaeth Lle a Chynaliadwyedd
Z.A. Evans, Peirianydd Cynorthwyol (Cyswllt Cynllunio)
D. Hall-Jones, Swyddog Cefnogi Aelodau

Siambr, Neuadd y Sir, Caerfyrddin. SA31 1JP ac o bell - 10.00 - 11.55 yb

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan y Cynghorydd T. Davies.

2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL

Y Cynghorydd	Rhif y Cofnod	Y Math o Fuddiant
J. Lewis	3: PL/06388 – Adeiladu pwll clawdd pridd i storio maetholion fferm ar dir i'r de o Drelech, Trelech, Caerfyrddin, SA33 6QZ	Personol a Rhagfarnol – Mae'r ymgeisydd yn ffrind ac mae hi'n adnabod y gwrthwynebydd.

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf

S. Allen	3: PL/06099 **-** Cynnig newid defnydd i Ddosbarth C3 ar gyfer addasu 7 fflat preswyl newydd, y Capel, Heol Norton, Pen-y-groes, Llanelli	Personol a Rhagfarnol – Mae'n bosibl ei bod yn adnabod yr ymgeisydd.

3. PENDERFYNU AR GEISIADAU CYNLLUNIO

PENDERFYNWYD caniatáu'r ceisiadau cynllunio canlynol yn amodol ar yr amodau yn Adroddiad/Atodiad y Pennaeth Lle a Chynaliadwyedd a/neu y rhoddwyd gwybod amdanynt yn y cyfarfod:-

PL/06099	**Cynnig newid defnydd i Ddosbarth C3 ar gyfer adasu 7 fflat preswyl newydd, y Capel, Heol Norton, Pen-y-groes, Llanelli** [Sylwer: Wrth ystyried yr eitem hon, bu i'r Cynghorydd S. Allen ddatgan ei bod yn bosibl ei bod yn adnabod yr ymgeisydd a gadawodd y Siambr ar unwaith.] Cafwyd sylw gan yr Aelod Lleol a oedd yn cefnogi'r cais ac yn ailbwysleisio'r pwyntiau yn adroddiad ysgrifenedig y Pennaeth Lle a Chynaliadwyedd a oedd yn cynnwys: • Y byddai'r adeilad yn dirywio pe na bai unrhyw beth yn cael ei wneud. • Y byddai'r cais yn darparu tai sydd eu hangen yn yr ardal. • Dywedodd na fyddai parcio yn broblem ac y byddai mynediad i'r fynwent yn cael ei chynnal er ei bod yn cydnabod bod preswylwyr yn bryderus. Ymatebodd yr Uwch-swyddog Rheoli Datblygu i'r pwyntiau a godwyd.
PL/06388	**Adeiladu pwll clawdd pridd i storio maetholion fferm ar dir i'r de o Drelech, Trelech, Caerfyrddin, SA33 6QZ** [Sylwer: Gan ei bod wedi datgan buddiant personol a rhagfarnol yn yr eitem hon yn gynharach, gadawodd y Cynghorydd J. Lewis y cyfarfod cyn i'r Pwyllgor ei hystyried a phenderfynu arni.] Cafwyd sylwadau a wrthwynebai'r cais ac a ail-bwysleisiai'r pwyntiau yn adroddiad ysgrifenedig y Pennaeth Lle a Chynaliadwyedd a oedd yn cynnwys: • Effaith llygredd posibl ar yr amgylchedd lleol • Llygredd mewn cyflenwadau dŵr preifat lleol • Risg o ollwng slyri a difrod i'r briffordd oherwydd cynnydd mewn symudiad cerbydau

	• Effaith negyddol ar eiddo cyfagos oherwydd allyriadau amonia Ymatebodd asiant yr ymgeisydd a'r Uwch-swyddog Rheoli Datblygu i'r materion a godwyd.

4. ADRODDIAD APELIADAU

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r Adroddiad Apeliadau Cynllunio a oedd yn darparu gwybodaeth yn ymwneud ag apeliadau cynllunio a gyflwynwyd ar 13 Mai, 2024.

PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.

5. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR GOFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 25AIN EBRILL 2024

PENDERFYNWYD llofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor oedd wedi ei gynnal ar 25 Ebrill 2024 gan eu bod yn gywir.

_____ _____

CHAIR **DATE**

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf